

Gareth Owens LL.B Barrister/Bargyfreithiwr
Chief Officer (Governance)
Prif Swyddog (Llywodraethu)



Swyddog Cyswllt:
Maureen Potter 01352 702322
maureen.potter@flintshire.gov.uk

At: Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg A Chraffu Gofal Cymdeithasol Ac Iechyd

Dydd Gwener, 21 Mai 2021

Annwyl Gyngorydd,

RHYBUDD O GYFARFOD ANGHYSBELL
PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD
DYDD IAU, 27AIN MAI, 2021 10.00 AM

Yn gywir

Robert Robins
Rheolwr Gwasanaethau Democraidd

Sylwch: Bydd hwn yn gyfarfod dros y we a bydd 'presenoldeb' wedi'i gyfyngu i Aelodau'r Pwyllgor a'r Aelodau hynny o'r Cyngor sydd wedi gofyn i Bennaeth y Gwasanaethau Democraidd am wahoddiad. Y Cadeirydd fydd yn penderfynu a yw'r rhain yn cael siarad ai peidio.

Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar <https://flintshire.publici.tv/core/portal/home>

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag aelod o'r Tîm Gwasanaethau Democraidd ar 01352 702345.

R H A G L E N

1 PENODI CADEIRYDD

Yn y Cyfarfod Blynyddol, bydd y Cyngor yn penderfynu pa Grŵp fydd yn cadeirio'r Pwyllgor. Bydd y Pwyllgor yn cael gwybod am Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn y cyngor.

2 PENODI IS-GADEIRYDD

Pwrpas: Penodi Is-Gadeirydd ar gyfer y Pwyllgor

3 YMDDIHEURIADAU

Pwrpas: I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau.

4 DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Pwrpas: I dderbyn unrhyw ddatganiad o gysylltiad a chynghori'r Aelodau yn unol a hynny.

5 COFNODION (Tudalennau 5 - 12)

Pwrpas: I gadarnhau, fel cofnod cywir gofnodion y cyfarfod ar 4 Mawrth 2021

6 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL A OLRHAIN GWEITHRED (Tudalennau 13 - 22)

Adroddiad Hwylusydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Pwrpas: I Ystyried y flaenraglen waith Pwyllgor Trosolwg & Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd a rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor o'r cynnydd yn erbyn camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol.

7 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWYR (Tudalennau 23 - 84)

Adroddiad Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) - Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol

Ystyried yr adroddiad drafft cyn iddo gael ei ystyried gan y Cabinet

8 YMGYNGHORIAD PAPUR GWYN LLYWODRAETH CYMRU – AILGYDBWYSO GOFAL A CHYMORTH (Tudalennau 85 - 106)

Adroddiad Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) - Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol

Roedd y ddogfen ymgynghori yn gofyn am farn am gynigion i gyflwyno deddfwriaeth newydd i wella trefniadau gofal cymdeithasol a chryfhau gweithio mewn partneriaeth i gyflawni'r weledigaeth sydd wedi'i nodi yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen chymorth.

9 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM WASANAETH MABWYSIADU GOGLEDD CYMRU (Tudalennau 107 - 348)

Adroddiad Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) - Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol

Derbyn adroddiad ar gynnydd

10 AROSFA (Tudalennau 349 - 354)

Adroddiad Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) - Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol

Darparu manylion y model gwasanaeth newydd a'r gwahaniaeth a fydd yn ei gael i blant a phobl ifanc.

11 DATBLYGU GOFAL PRESWYL MEWNOL AR GYFER PLANT (Tudalennau 355 - 362)

Adroddiad Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) - Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol

Cefnogi'r symudiad i ddod yn ddarparwr uniongyrchol o Ofal Preswyl ar gyfer Plant

12 GWASANAETHAU IECHYD MEDDWL SIR Y FFLINT (Tudalennau 363 - 386)

Adroddiad Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) - Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol

Tynnu sylw at yr heriau sy'n wynebu gwasanaethau iechyd meddwl a'r effaith y mae Covid 19 yn ei gael ar iechyd meddwl y boblogaeth leol.

Sylwch, efallai y bydd egwyl o 10 munud os yw'r cyfarfod yn para'n hirach na dwy awr.

Nodyn Gweithdrefnol ar redeg cyfarfodydd

Bydd y Cadeirydd yn agor y cyfarfodydd ac yn cyflwyno eu hunain.

Bydd nifer o Gynghorwyr yn mynychu cyfarfodydd. Bydd swyddogion hefyd yn mynychu cyfarfodydd i gyflwyno adroddiadau, gyda swyddogion Gwasanaethau Democrataidd yn trefnu a chynnal y cyfarfodydd.

Gofynnir i bawb sy'n mynychu i sicrhau bod eu ffonau symudol wedi diffodd a bod unrhyw sain gefndirol yn cael ei gadw mor dawel â phosib.

Dylai'r holl feicroffonau gael eu rhoi "ar miwt" yn ystod y cyfarfod a dim ond pan fyddwch yn cael eich gwahodd i siarad gan y Cadeirydd y dylid eu rhoi ymlaen. Pan fydd gwahoddedigion wedi gorffen siarad dylen nhw roi eu hunain yn ôl "ar miwt".

Er mwyn mynegi eu bod nhw eisiau siarad bydd Cynghorwyr yn defnyddio'r cyfleuster 'chat' neu yn defnyddio'r swyddogaeth 'raise hand' sy'n dangos eicon codi llaw electronig. Mae'r swyddogaeth 'chat' hefyd yn gallu cael ei ddefnyddio i ofyn cwestiynau, i wneud sylwadau perthnasol ac yn gyfle i'r swyddog gynghori neu ddiweddarau'r cynghorwyr.

Bydd y Cadeirydd yn galw ar y siaradwyr, gan gyfeirio at aelod etholedig fel 'Cynghorydd' a swyddogion yn ôl eu teitl swydd h.y. Prif Weithredwr neu enw. O bryd i'w gilydd mae'r swyddog sy'n cynghori'r Cadeirydd yn egluro pwyntiau gweithdrefnol neu'n awgrymu geiriad arall ar gyfer cynigion er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor.

Os, a phan y cynhelir pleidlais, mi fydd y Cadeirydd yn egluro mai dim ond y rheiny sy'n gwrthwynebu'r cynnig/cynigion, neu sy'n dymuno ymatal a fydd angen mynegi hynny drwy ddefnyddio'r swyddogaeth 'chat'. Bydd y swyddog sy'n cynghori'r Cadeirydd yn mynegi os bydd y cynigion yn cael eu derbyn.

Os oes angen pleidlais fwy ffurfiol, bydd hynny yn ôl galwad enwau – lle gofynnir i bob Cynghorydd yn ei dro (yn nhrefn yr wyddor) sut mae ef / hi yn dymuno pleidleisio.

Yng nghyfarfodydd Pwyllgorau Cynllunio a Chyngor Sir mae amseroedd siaradwyr yn gyfyngedig. Bydd cloch yn cael ei chanu i roi gwybod i'r siaradwyr bod ganddyn nhw funud ar ôl.

Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar

<https://flintshire.publici.tv/core/portal/home>